# Cynhyrchydd

# Heno/Prynhawn Da

Tinopolis

## Tinopolis - Llanelli

Ry'n ni'n chwilio am berson creadigol a brwdfrydig i ymuno â thîm cynhyrchu Heno a Prynhawn Da yn Llanelli.

Mae'n gyfle cyffrous i greu cynnwys gwreiddiol a blaengar i ddwy o raglenni mwyaf poblogaidd S4C. Mae'r rôl yn gofyn am feddwl creadigol a threfnus ac yn cyplysu gwaith ar y rhaglenni byw yn ogystal ag eitemau wedi eu paratoi o flaen llaw ar gyfer y rhaglenni byw a'r llwyfannau digidol.

Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol brofiad o weithio yn y diwydiannau creadigol gyda gwybodaeth ac adnabyddiaeth dda o Gymru a'i phobl ynghyd â'r gallu i greu cynnwys apelgar.

Yn ddelfrydol ry' ni'n edrych am gynhyrchydd profiadol ond byddwn hefyd yn ystyried ymgeisydd sy'n awyddus i ddatblygu sgiliau cynhyrchydd. Cynigir hyfforddiant i'r ymgeisydd llwyddiannus os yn llai profiadol. Mae agwedd bositif a brwdfrydig yn hanfodol ar gyfer y swydd yma yn ogystal â'r gallu i weithio'n dda gydag eraill. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn angenrheidiol.

Rydym yn gwmni sy'n awyddus i adlewyrchu'r cymunedau ry' ni'n gwasanaethu ac yn credu mewn amrywiaeth a chyfleon cyfartal, ac rydym bob amser yn croesawu ceisiadau wrth unigolion o unrhyw oedran, cefndir ethnig, anabledd, rhywioldeb, a chefndir cymdeithasol yn unol â Deddf Gydraddoldeb 2010.

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | Canolfan Tinopolis, Stryd y Parc, Llanelli SA15 3YE |
| **Cyflog:** | yn ddibynnol ar brofiad |
| **Dyddiad Cau:** | 5 Mehefin 2026 |

## Manylion pellach

| | |
|---|---|
| **Oriau Gwaith:** | Cyfartaledd o 40 awr yr wythnos ond oherwydd natur y swydd disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys, penwythnosau a gwyliau banc. |
| **Gwyliau:** | Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl pro rata i 25 diwrnod o wyliau dros flwyddyn. |
| **Pensiwn:** | Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth. Os byddwch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn, bydd Tinopolis yn cyfrannu 3% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%. |
| **Ceisiadau:** | Dylid anfon ceisiadau mewn ffurf llythyr cais a CV erbyn 5 Mehefin 2026 at swyddi@tinopolis.com neu Swyddi, Canolfan Tinopolis, Stryd y Parc, Llanelli, SA15 3YE. |

**Yn unol â gofynion Deddf Lloches a Mewnfudo 1996, rhaid i bob ymgeisydd fod yn gymwys i fyw a gweithio yn y DU. Bydd yn ofynnol cael tystiolaeth ddogfennol o gymhwyster gan ymgeiswyr fel rhan o'r broses recriwtio.**

**Gwybodaeth bersonol a gasglwn amdanoch chi pan fyddwch yn ymgeisio am swydd yn Tinopolis:**

**Wrth wneud cais am swydd, bydd disgwyl i chi ddarparu CV fel rhan o'r broses. Byddwn yn cadw copi o'ch CV ar ffeil am gyfnod o dair blynedd. Pe bai swydd debyg yn codi yn y cyfnod hwn, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth er mwyn cysylltu â chi. Gallwch ofyn i ni ddileu eich data personol o'n ffeiliau ar unrhyw adeg. Am ragor o wybodaeth am ein Polisi Diogelu Data, gweler**

**http://www.tinopolis.com/privacy-notice/**